

Teitl: Her yr Hinsawdd

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
Rhesymeg	YMWADIAD: Mae'r Nodiadau i Athrawon wedi'u diweddarau er mwyn gallu defnyddio'r adnodd drwy Gwricwlwm i Gymru. Wedi dweud hynny, mae cynnwys yr erthyglau wedi'i archifo ac nid yw'r wybodaeth wedi'i diweddarau. Mae'r erthyglau yn cael eu cadw ar y wefan gan fod y cynnwys yn parhau i fod yn berthnasol i Gwricwlwm i Gymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Pedwar diben 'Cwricwlwm i Gymru - Cwricwlwm am Oes' Drwy ddysgu am yr amgylchedd fel rhan o'u gwersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu yn: • Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n gallu egluro'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu; • Unigolion iach a hyderus sydd â gwerthoedd cadarn ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesol; • Cyfranogwyr mentrus, creadigol sy'n rhoi o'u hegri a'u sgiliau er budd pobl eraill; • Dinasyddion moesol, dysgedig a fydd yn ymgysylltu â materion cyfoes yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u gwerthoedd. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i: • Ymgysylltu â chwestiynau athronyddol a thyngedfennol, a'u harchwilio • Ymgymryd ag ymholiadau ac ymgysylltu â ffynonellau o ddoethineb ac athroniaethau • Datblygu a mynegi eu safbwyntiau dysgedig eu hunain • Defnyddio eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth am safbwyntiau byd-eang crefyddol a heb fod yn grefyddol i feddwl yn feirniadol am eu gwerthoedd eu hunain • Archwilio'r ffyrdd mae argyhoeddiadau athronyddol crefyddol a heb fod yn grefyddol wedi dylanwadu ar brofiad dynol drwy gydol hanes • Gwerthuso amrywiaeth o ffynonellau crefyddol a heb fod yn grefyddol a defnyddio tystiolaeth ohonynt i ymgysylltu â materion moesegol a moesol • Archwilio credoau ac arferion pobl yn eu cymuned, yng Nghymru ac yn y byd ehangach ac ymateb yn sensitif iddynt • Datblygu gwerthoedd cadarn a sefydlu eu credoau moesol a'u hysbrydolrwydd • Trafod eu persbectifau eu hunain a phersbectifau eraill, a myfyrio arnynt		

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
	Y lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Drwy ddarllen a defnyddio'r erthyglau yn eu gwersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, caiff dysgwyr gyfleoedd i archwilio amrywiaeth o gysyniadau yn ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy'r is-lensys isod: • <u>Chwilio am ystyr a diben;</u> • <u>Y byd naturiol a phethau byw;</u> • <u>Hunaniaeth a pherthyn;</u> • <u>Awdurdod a dylanwad;</u> • <u>Perthnasoedd a chyfrifoldeb;</u> • <u>Gwerthoedd a moeseg;</u> • <u>Taith bywyd;</u> *Noder bod Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael eu pennu'n lleol drwy faes llafur cytunedig. Mae gan bob awdurdod lleol ei faes llafur cytunedig ei hun ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid i ysgolion ei ystyried. Mae pob maes llafur sydd wedi'i gytuno wedi ystyried fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg y cyfeirir atynt uchod ac isod. Dolenni Defnyddiol: Canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#religion,-values-and-ethics-guidance Canllawiau Dyniaethau Hwb - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/statements-of-what-matters/ Themâu Trawsgwricwlaidd - https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/designing-your-curriculum/#cross-cutting-themes		

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
Geirfa allweddol	Newid Hinsawdd - newid tymor hir ym mhatrwm tymheredd a thywydd y byd. Tanwydd Ffossil - ffynhonnell ynni a gwres sy'n cael ei losgi; e.e. glo, olew a nwy. Carbon deuocsid - nwy sy'n cael ei gynhyrchu gan y broses o losgi, dyma sy'n cael ei gyfri'n bennaf gyfrifol am gynhesu'r byd a chreu newid yn yr hinsawdd. Rhywogaethau - yr amrywiaeth o fywyd byd natur ar draws y byd. Cynefin - cartref naturiol holl greaduriaid a phlanhigion y byd. Cyfrifoldeb - yr ymdeimlad o'r angen i wneud ein gorau dros eraill a byd natur. Stiwardiaeth - y syniad o ofalu am rywbeth er mwyn ei drosglwyddo i eraill. Amgylchedd - y byd o'n cwmpas. Carbon Niwtral - sefyllfa lle mae cydbwysedd rhwng y carbon sy'n cael ei ryddhau a'r carbon sy'n cael ei gymathu neu lyncu. Ailgylchu - ail ddefnyddio pethau drwy ail brosesu; e.e. gwydr, plastig, papur ac ati.	Ad Hoc - wedi'i greu neu ei wneud at ddiben penodol yn ôl yr angen. Eirioli - argymell neu gefnogi'n gyhoeddus. Bioamrywiaeth - yr amrywiaeth o fywyd planhigion ac anifeiliaid yn y byd neu mewn cynefin penodol, y mae lefel uchel ohoni fel arfer yn cael ei hystyried yn bwysig ac yn ddymunol. Ôl troed carbon - cyfanswm y nwyon tŷ gwydr (gan gynnwys carbon deuocsid a methan) sy'n cael ei gynhyrchu gan ein gweithredoedd. Newid yn yr hinsawdd - newidiadau tymor hir mewn tymheredd a phatrymau tywydd. Datgoedwigo - clirio tir coediog yn bwrpasol. Disbyddu - defnyddio'r cyflenwad neu adnoddau yn llwyr. Mynegiant - y weithred o wneud ein meddyliau neu deimladau yn hysbys. Cyfiawnder - ymddygiad neu driniaeth gyfiawn. Symudiad - newid neu ddatblygiad. Polisi - egwyddor neu ffordd o weithredu a fabwysiadwyd neu a gynigir gan sefydliad neu unigolyn. Llygredd - cyflwyno halogion i'r amgylchedd naturiol sy'n achosi newid niweidiol.	Dharma – yr egwyddor o ‘ddyletswydd mewn Hindŵaeth Karma - Yr egwyddor o achos ac effaith mewn Hindŵaeth Stiward - rhywun sy'n gofalu am rywbeth i rywun arall - y syniad ein bod yn gofalu am y ddaear er nad yw'n perthyn i ni. Datgoedwigo – torri coed am resymau economaidd Y Dalai Lama – arweinydd Bwdhaeth Tibet Y Bwdha – sylfaenydd crefydd Bwdhaeth Qur'an – llyfr sanctaidd crefydd Islam Proffwyd Muhammad - y proffwyd olaf a'r pwysicaf yng nghrefydd Islam Cristnogion Efengylaidd – Cristnogion ffundamentaidd sy'n Dilyn eu crefydd yn llythrennol. -

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
	Ynni Adnewyddol - ynni sy'n cael ei greu gan ddefnyddio adnoddau sydd ddim yn darfod; e.e. haul, gwynt a llanw'r môr.	Adnewyddadwy - adnodd naturiol neu ffynhonnell ynni nad yw'n cael ei disbyddu gan ddefnydd, e.e. dŵr, gwynt neu ynni haul. Streic - gwrthod gweithio, wedi ei drefnu gan gorff o weithwyr fel math o brotest, fel arfer mewn ymgais i ennill consesiwn neu gonsesiynau gan eu cyflogwr. Cynaliadwyedd – y gallu i gynnal neu gefnogi proses dros amser. Bregus - (unigolyn) sydd angen gofal, cymorth neu amddiffyniad arbennig oherwydd oedran, anabledd, neu risg o gamdriniaeth neu esgeulustod.	
Geirfa	Newid Hinsawdd Tanwydd Ffossil Carbon deuocsid Rhywogaethau Cynefin Cyfrifoldeb Stiwardiaeth Amgylchedd	Ad Hoc Eirioli Bioamrywiaeth Ôl troed carbon Newid yn yr hinsawdd Datgoedwigo Disbyddu Mynegiant	Dharma Karma Steward Datgoedwigo Y Dalai Lama Y Bwdha Qur'an Proffwyd Muhammad

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
	Carbon Niwtral Ailgylchu Ynni Adnewyddol	Cyfiawnder Symudiad Polisi Llygredd Adnewyddadwy Streic Cynaliadwyedd Bregus	Cristnogion Efengylaidd Tystiolaeth wyddonol Datganiad Hindŵaidd Hindu Climate Action Chipko Tibet Eco-Dharma Network Sangha Un Ddaear Islam Islamic Relief Operation Noah Humanist Climate Action Hajj
Tasgau ymestynnol			
Tasgau dosbarth	1. Casglwch wybodaeth am chwe digwyddiad ar draws y byd a fu'n ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn ystod y blynyddoedd a aeth heibio.	1. Beth yw Stiwardiaeth? Ysgrifennwch eich diffiniad eich hun o stiwardiaeth. Defnyddiwch y geiriau hyn i helpu: gofal, cyfrifoldeb, yr amgylchedd,	1. Ymchwiliwch ymhellach i safbwynt unrhyw grefydd ar 'newid hinsawdd'. A oes mwy nag un farn o fewn y grefydd

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
	2. Pwy ydy Greta Thunberg a'r Dalai Lama? Sut mae'r ddau wedi gweithredu er mwyn wynebu her yr hinsawdd? 3. a) Lluniwch ddeg rheol syml y gallwn ni yng Nghymru eu cadw mewn ymateb i her yr hinsawdd. b) Lluniwch ddeg rheol syml y dylai arweinwyr y byd eu cadw mewn ymateb i her yr hinsawdd. c) 'Nid oes pwrpas i rai ymateb i her yr hinsawdd os nad yw pawb ar draws y byd yn gwneud'. Nodwch bwyntiau dros ac yn erbyn y ddadl yma gan geisio rhoi enghreifftiau. 4. a) Mae nifer o grefyddau yn pwysleisio cyfrifoldeb a stiwardiaeth dyn dros y ddaear. Nodwch safbwyntiau gwahanol grefyddau ar gyfrifoldeb bodau dynol i edrych ar ôl y byd. Oes yna debygrwydd/gwahaniaethau? b) Mae eraill yn pryderu am yr amgylchfyd. Beth yw barn Dyneiddwyr a grwpiau eraill?	cenedlaethau'r dyfodol. 2. Isod mae dysgeidiaethau o dair crefydd am stiwardiaeth. Darllenwch y rhain yn ofalus, yna atebwch y cwestiynau. Cristnogaeth: "Cymerodd yr Arglwydd Dduw y dyn a'i osod yng Ngardd Eden i'w thrin a'i chadw." (Genesis 2:15) Islam: "Peidiwch â gwastraffu; nid yw Duw yn caru'r gwastraffus." (Qur'an 6:141) Hindŵaeth: Y cysyniad o Ahimsa, sy'n golygu dim trais tuag at bob bod byw. a) Beth sydd gan y dysgeidiaethau hyn yn gyffredin? b) Sut gallai'r dysgeidiaethau hyn annog pobl i ddiogelu'r amgylchedd? 3. Stiwardiaeth ar Waith Sefyllfa: Dychmygwch eich bod yn rhan o gyngor ysgol sy'n ceisio gwneud eich ysgol yn fwy ecogyfeillgar. Ysgrifennwch ddau syniad ar sut i: a) Lleihau gwastraff yn eich ysgol: b) Helpu i ddiogelu'r amgylchedd: 4. Adlewyrchu Isod mae dyfyniad o flog Poppy Stowell-	honno? Lluniwch gyflwyniad i weddill y dosbarth. 2. Ymchwiliwch pam bod mudiad gweithredu Cristnogol ar newid hinsawdd wedi dewis yr enw 'Operation Noah'. 3. Lluniwch Ddiagram Venn yn dangos y tebygrwydd rhwng syniadau'r gwahanol grefyddau a'r farn Ddyneiddiol am newid hinsawdd. 4. Ymchwiliwch i'r heriau amgylcheddol a berir gan Hajj. Beth gellir ei wneud yn wahanol i leihau'r effeithiau? 5. Ysgrifennwch erthygl ar waith unrhyw fudiad sy'n gweithredu ar newid hinsawdd. 6. Lluniwch flog o safbwynt rhywun sydd yn herio'r dystiolaeth ynglŷn â newid hinsawdd. 7. Ysgrifennwch ysgrif yn cyflwyno eich barn eich hun am newid hinsawdd.

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
	c) Ymchwilio i'r hyn y mae gwahanol grwpiau ffydd a chredoau yn ei wneud mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd fel ffordd o ystyried effaith ffydd a chred ar newid yn yr hinsawdd. 5. Edrychwch ar yr ardal o gwmpas eich cartref. Pa bethau ymarferol fyddai'n bosib i bobl ifanc eu gwneud yn lleol er mwyn gwarchod byd natur o'n cwmpas?	Evans. Adlewyrchwch ar eich credoau a'ch gwerthoedd a be sy'n dylanwadu arnynt yn bersonol ac yn gyfunol. Gall rhain fod yn greddoau crefyddol neu anghrefyddol. "Yn aml, fel actifydd hinsawdd ifanc, gofynnir i mi sut mae gorbryder am newid hinsawdd wedi effeithio arna i. Fel arfer rwy'n trafod sut mae ofn diffyg gweithredu wedi achosi llawer o nosweithiau digwsg imi, o hunllefau i'r teimlad llethol o ddiffyg pŵer. Fodd bynnag, ateb rydw i wedi'i hyrwyddo ac y byddaf yn parhau i'w hyrwyddo i fynd i'r afael â gorbryder am newid hinsawdd yw gweithredu eich hun ac, yn bwysicaf oll, deall pam rydych chi am gymryd y camau hyn." 5. Adlewyrchu Beth yw un cam y gallech chi ei gymryd yn bersonol i ofalu am yr amgylchedd, wedi'i ysbrydoli gan greddoau crefyddol neu anghrefyddol am stiwardiaeth? 6. Rydych chi ar gyngor yr ysgol, ac mae'r pennaeth wedi gofyn i chi annog yr ysgol i fod yn fwy cynaliadwy. Eich tasg yw creu poster y gellir ei osod drwy'r ysgol gydag awgrymiadau ar sut i gyflawni ffordd fwy cynaliadwy o fyw. Ymchwiliwch i wahanol	

Teitlau	Beth ydy newid Hinsawdd?	Gwerthoedd Pobl Ifanc a Newid yn yr Hinsawdd	Safbwyntiau crefyddau ar newid hinsawdd.
		ffyrdd, a chreu poster sy'n tynnu sylw!	
Adnoddau pellach			